**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 13-02(draft min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **10 Gorffennaf 02** |
| **Amser** | **2.00 – 5.30pm** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd** |

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| David Davies | Mynwy |
| Ron Davies(Cadeirydd dros dro) | Caerffili |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Alison Halford | Delyn |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, yr Adran Datblygu Economaidd |
| David Hobbs | ICM3 |
| Ron Loveland | ISG |
| Reg Kilpatrick | EPD 1 |
| Keith Parsons | EPD 2 |

**Yn mynychu**

| | |
|---|---|
| David Bryce | MicroGen |
| Graham Hawker | Prif Weithredwr, WDA |
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, WDA |
| Jonathan Jones | Prif Weithredwr,Bwrdd Croeso Cymru |

| | |
|---|---|
| Steve Webb | Cyfarwyddwr Strategaeth, Bwrdd Croeso Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y cadeirydd.**

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr ar gwmni bychan a Chadeirydd SBARD; Mick Bates sydd yn Gyfarwyddwr busnes ffermio a Phil Williams sydd ar hyn o bryd yn gysylltiedig â chais Amcan 1.
2. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Christine Gwyther a Christine Chapman. Yr oedd John Griffiths yn dirprwyo ar ran Christine Gwyther a Brian Gibbons ar ran Christine Chapman.

**Eitem 2: Effeithlonrwydd ynni a CHP, Micro CHP**

1. Cyflwynodd David Bryce yr eitem trwy amlinellu datblygiad system CHP MicroGen. Yr oeddynt ar hyn o bryd yn gweithio gyda DEFRA ar dreialon maes. Dywedodd pa mor bwysig oedd cael cefnogaeth ddigonol gan Awdurdodau Lleol, landlordiaid cymdeithasol eraill a darparwyr ynni er mwyn cefnogi cynhyrchu unedau yn y fath niferoedd fel y gellid sicrhau bod y costau yn aros yn gystadleuol. Yr oedd Microgen yn anelu at osod 8000 o unedau yn ystod y flwyddyn gyntaf.
2. Nododd nad oedd unrhyw gronfeydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cynlluniau i annog gosod micro CHP ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ac awgrymodd, petai'r lefel TAW yn cael ei gostwng i 5%, fel a ddigwyddodd gyda'r cynllun 'warmfront', y byddai'r amser talu'n ôl yn llai gan arwain at gynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr. Dywedodd mai un o'r rhwystrau i'r farchnad am ficro CHP oedd cael y defnyddiwr i dderbyn y dechnoleg newydd, roedd wedi cymryd 20 mlynedd i 5% droi at foeleri cyddwyso.
3. Mewn trafodaeth holodd yr aelodau am y defnydd o ficro CHP mewn ardaloedd gwledig lle nad oedd cyflenwad o Nwy Naturiol. Dywedodd David Bryce y gellid defnyddio'r boeleri gyda Nwy LPG ond byddent 50% yn llai effeithiol oherwydd cost gynyddol y nwy. Ychwanegodd fod Transco yn lobïo llywodraeth y DU o ran darparu nwy i ardaloedd gwledig gan nad oedd unrhyw gymhelliant ar hyn o bryd i gyflenwyr fuddsoddi yn y seilwaith. Yr oedd y diwydiant yn awgrymu bod angen i unrhyw gyflenwr sy'n fodlon darparu cyflenwad nwy gael lefel warantedig o gwsmeriaid am gyfnod o 5 mlynedd.
4. Nid oedd yn fwriad i Ficro CHP gyfrannu at y Grid Cenedlaethol ac felly nid oedd

y trefniadau NETA o anghenraid yn broblem ond gallai'r berthynas rhwng prisiau nwy a thrydan effeithio ar gost-effeithiolrwydd yr unedau. Nododd David Bryce y gallai'r unedau ddarparu annibyniaeth grid a ffactor pwysig arall i'w ystyried oedd eu bod yn dal i weithio pan fyddai toriad yn y cyflenwad gan ddarparu trydan a gwres.

5. Terfynodd David Bryce trwy ddweud y byddai'r llinell gynhyrchu, unwaith y byddai canlyniadau treialon maes DEFRA ar gael, yn cymryd rhwng 12 – 18 mis i'w ddatblygu. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei gyfraniad, a fyddai'n cael ei ystyried fel rhan o adroddiad nesaf y Pwyllgor.

**Eitem 3: Ynni Adnewyddadwy – Adroddiad Cynnydd ar yr Ymgynghoriad**

1. Ers paratoi'r papur, dywedodd y Clerc eu bod wedi derbyn nifer o gyflwyniadau ychwanegol ac ar hyn o bryd yr oedd cyfanswm o 120 wedi'u derbyn. Yn ogystal, yr oedd 250 arall o gardiau post 'Cyfeillion y Ddaear' wedi'u derbyn. Dywedodd fod y cyflwyniadau cychwynnol yn tueddu i fod oddi wrth unigolion preifat, a'r rhai diweddaraf oddi wrth sefydliadau, nid rhywbeth sy'n synnu o bosibl. Dywedodd eu bod yn teimlo nad oedd yn briodol rhoi dadansoddiad i'r Pwyllgor o'r ymatebion a dderbyniwyd 'hyd yma' ond aros nes eu bod wedi derbyn pob un ac wedyn eu dadansoddi'n ofalus. Yr oedd yr aelodau'n awyddus i weld yr holl sylwadau a dderbyniwyd a dywedodd y Clerc y byddai'r rhain ar gael ar y Mewnrwyd, ac ymhen ychydig ar y Rhyngrwyd ac eithrio pan oedd yr ymatebwyr wedi gofyn yn benodol i'w sylwadau beidio â chael eu gwneud yn gyhoeddus. Y bwriad oedd gwneud hyn erbyn diwedd Awst.

**Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

1. Dosbarthodd y Gweinidog gopi o gyhoeddiad a wnaethpwyd i weithwyr ASW Holdings PLC y bore hwnnw ynghylch penderfyniad y Cwmni i ofyn i'w banciau benodi derbynwyr. Mynegodd y Gweinidog ei siom gyda'r cyhoeddiad a dywedodd ei fod wedi cysylltu â'r derbynnydd, KPMG, i gynnig cefnogaeth. Dywedodd ei fod wedi bod yn gweithio gyda'r cwmni ers cryn amser a chyfeiriodd at gyfarfod diweddar Llywodraeth y Cynulliad gydag ASW, ei fancwyr, yswirwyr credyd a'r Adran Masnach a Diwydiant. Cynhaliwyd cyfarfod arall rhwng ASW a'i fancwyr y diwrnod blaenorol, lle na chafwyd unrhyw gytundeb ac o ganlyniad penodwyd y derbynwyr.
2. Nododd yr aelodau y gydnabyddiaeth gan ASW i gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yr oeddynt yn gwerthfawrogi eu hymwneud yn y mater hyd yma. Yr oeddynt yn bryderus ynghylch dyfodol cynhyrchu dur ar y safle yn enwedig o wybod gwerth amlwg y safle ar gyfer datblygu, oherwydd ei leoliad. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn flaenoriaeth bwysig parhau i gynhyrchu dur ar y safle. Yr oedd ASW wedi bod yn hyderus, yn sgîl gwelliannau diweddar i'r amodau masnachu, y gallasent ddianc o'u sefyllfa bresennol drwy fasnachu a

chyda chefnogaeth eu bancwyr. Bwriad KPMG oedd gwerthu'r Cwmni fel busnes hyfyw ac yr oeddynt yn cyfarfod gyda gweithwyr a'u hundebau y diwrnod hwnnw.

3. Awgrymodd Aelod y gallai'r Cynulliad ystyried prynu'r tir a'i brydlesu'n ôl i'r Cwmni i leddfu eu sefyllfa fasnachu gyfredol. Cyfeiriodd y Gweinidog at y cymorth ariannol uniongyrchol hynod gyfyngedig y gallai'r Cynulliad ei ystyried dan reolau cymorth yr UE gan wladwriaethau, ond dywedodd y byddent yn ystyried yr opsiwn gyda'r derbynwyr. Nododd swyddogion y byddai'n rhaid i unrhyw fid gan y WDA neu asiantaeth arall fod ar sail fasnachol mewn cystadleuaeth ag eraill.
4. Parhaodd y Gweinidog â'i adroddiad gyda datganiad llafar byr o'r materion diweddaraf, ac y mae copi ohono wedi'i gysylltu i'w adroddiad.
5. Gan ymateb i bryder Aelod ynghylch y cyhoeddiad diweddar fod swyddi'n cael eu colli yn Kwik Save Casnewydd, dywedodd y Gweinidog fod y drefn Tîm Cymru yn cael ei rhoi ar waith ba bryd bynnag y cyhoeddir bod nifer sylweddol o swyddi'n cael eu colli.
6. Croesawodd yr Aelodau y cyhoeddiad diweddar gan British Midland ynghylch eu penderfyniad i leoli eu cwmni awyrennau cost isel, BMIBaby ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Serch hynny, mynegwyd pryder ganddynt ynghylch y cysylltiadau cludiant â'r Maes Awyr. Dywedodd y Gweinidog y bydd adroddiad gan Sue Essex yn cael ei gyhoeddi gyda hyn ar yr opsiynau ar gyfer gwella mynediad i'r Maes Awyr ac atgoffodd yr Aelodau y bydd cyswllt rheilffordd a bws newydd yn agor y flwyddyn nesaf i leihau rhywfaint o bwysau ar y ffyrdd. Cadarnhaodd nad oedd British Midland wedi derbyn arian uniongyrchol gan y Cynulliad, ond bod Bwrdd Croeso Cymru yn cydweithio â'r Cwmni i edrych ar ffyrdd o hyrwyddo Cymru i ymwelwyr.
7. Mynegodd yr Aelodau sawl pryder ynghylch y cyhoeddiadau yn adroddiadau'r Gweinidog ar swyddi a enillwyd. Yr oeddynt yn amau pa mor ddilys oeddynt, o wybod mai dim ond darpar swyddi oedd llawer o'r swyddi y cyfeiriwyd atynt, a phwysleisiwyd ganddynt bod angen ffigurau cywir. Gofynnwyd hefyd ganddynt am rannu'r gost o'r swyddi a ddiogelwyd a'r swyddi a grëwyd, sef y ffigurau yn y tabl ym mharagraff 3 adroddiad y Gweinidog. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried y cais, ond atgoffodd yr Aelodau bod angen cael cydbwysedd rhwng defnyddio adnoddau a darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor a phrosesu ceisiadau grant**.[Cam Gweithredu: Gweinidog DE]**
8. Cafwyd trafodaeth i ddilyn ar gynnwys cyffredinol adroddiad y Gweinidog nad oedd yn rhoi golwg strategol glir ar economi Cymru. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Gweinidog gynnwys elfen o fewn ei adroddiad a fyddai'n caniatáu i Aelodau gymryd safbwynt strategol mwy ystyriol, yn arbennig parthed 'Cymru'n Ennill' ac awgrymodd y dylai'r Gweinidog drafod hyn ymhellach gyda Christine Gwyther. **[Cam Gweithredu: Cadeirydd/Gweinidog DE]**
9. Holodd Aelod ynghylch y penderfyniad i uno Cymdeithas Allforio Canolbarth Cymru gyda'r WTI a gofynnodd a oedd y seilwaith cyfredol yn cael ei gadw. Dywedodd y Gweinidog fod y WTI wedi bod yn llwyddiannus iawn a bod Cymdeithas Allforio Canolbarth Cymru wedi cytuno i'r uno. Cadarnhaodd y byddai

gweithwyr lleol y Gymdeithas Allforio'n cael eu cadw fel rhan o WTI.

10. Amlygodd Aelod yr effaith a gawsai mynediad rhad ac am ddim i'r amgueddfeydd sydd dan reolaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar atyniadau ymwelwyr mewn perchnogaeth breifat, a gofynnodd i'r Gweinidog adolygu'r newidiadau strategol a ddigwyddodd yn dilyn y penderfyniad. Cydnabu'r Gweinidog fod y polisi 'mynediad rhad ac am ddim' o bosib wedi cael effaith andwyol ar rai atyniadau ond dywedodd y dylai'r polisi gynyddu'r farchnad ymwelwyr yn gyffredinol. Pwysleisiodd fod grantiau ar gael i atyniadau ymwelwyr trwy Fwrdd Croeso Cymru a dywedodd fod Amgueddfeydd Cymru wedi helpu atyniadau ymwelwyr eraill gyda chyhoeddusrwydd.
11. Yr oedd Aelodau yn hynod o bryderus na chysylltwyd â'r PDE ynghylch yr argymhellion a gynhwyswyd yn Natganiad Polisi'r Gweinidog Cyllid 'Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol' parthed Trethi Busnes. Dywedodd y Gweinidog yr ymgynghorwyd â'r gymuned fusnes ynghylch yr argymhellion a'i fod wedi'u trafod gyda'r CBI a'r FSB. Yr oedd yr aelodau'n bryderus y byddai unrhyw benderfyniad yn cael effaith enfawr ar fusnes yng Nghymru a chytunasant i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid yn gofyn i unrhyw gyhoeddiad a wneir beidio â bod yn derfynol ac y byddai'r PDE yn cael amser i gyfrannu at y broses. Gofynasant hefyd i'r Gweinidog roi sylwadau i'r Gweinidog Cyllid **[Cam Gweithredu: Clerc/Gweinidog DE]**

**Eitem 5:Trafodaeth derfynol ar y Gyllideb**

1. Hon oedd trafodaeth olaf y Pwyllgor o ran ystyried cylch cynllunio cyllideb 2002 a gynhaliwyd wedi i'r Cadeirydd gytuno i 'drafodaeth fer bellach' ar wybodaeth ariannol fanylach i'w darparu gan y Gweinidog. Yr oedd y wybodaeth wedi'i darparu fel rhan o'i Adroddiad ar gyfer y PDE ar 26 Mehefin .
2. Ailadroddodd yr Aelodau eu pryderon ynghylch lefel yr arian cyfatebol sydd ar gael ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol ac, yn arbennig, fod oedi mewn blynyddoedd cynharach o bosibl yn golygu bod yr amcangyfrifon gwreiddiol ar gyfer arian cyfatebol mewn blynyddoedd diweddarach wedi bod yn annigonol, gan arwain at golli arian Ewropeaidd.
3. Yr oedd angen hefyd edrych yn ofalus ar yr agenda wledig a oedd wedi cael ei chydnabod yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac yr oedd angen darparu cyllid digonol ar ei chyfer.
4. Gan edrych ar y ddarpariaeth gyffredinol, mynegodd nifer o aelodau eu pryder bod cyfanswm yr arian a oedd ar gael heb fod yn ddigon i gyflawni nodau Cymru'n Ennill. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch effeithiau fformiwla Barnett ac yr oedd yr aelodau yn falch o wybod y byddai gwybodaeth am 'ganlyniadau' yn cael ei gwneud yn gyhoeddus.
5. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch lefel y cyllid ar gyfer band llydan, mater a oedd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth gan y Pwyllgor. Er eu bod yn cydnabod y byddai'r rhaglen hon yn ymestyn dros nifer o flynyddoedd, pwysleisiwyd ganddynt

bwysigrwydd darparu cyllid digonol yn y dyfodol.

6. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog DE fod llawer o'r hyn a ddywedwyd gan y Pwyllgor yn adlewyrchu ei flaenoriaethau personol ei hun a phwysleisiodd y cynnydd sylweddol yn y gwariant yn y ED MEG ers 2000-1. Nododd hefyd fod gwariant sylweddol mewn cyllidebau ar wahân i'w gyllideb ef ei hun, e.e. ar Gludiant ac Addysg, a oedd yn dod â manteision i economi Cymru.
7. Gan grynhoi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Clerc yn ystyried y sylwadau a wnaed gan aelodau yn y drafodaeth hon a'r rhai blaenorol ar gylch cyllideb 2002 a byddai'n paratoi llythyr drafft i'w ystyried ganddynt a chytuno arno drwy'r e-bost.

**Eitem 6: Cynllun Corfforaethol y WDA**

1. Yr oedd yr aelodau'n drist o glywed am absenoldeb Emyr Roberts oherwydd i'w dad fod mewn damwain car. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ato i fynegi cydymdeimlad y Pwyllgor ag ef.
2. Cyflwynodd Graham Hawker Adroddiad Blynyddol / Cynllun Corfforaethol Drafft y WDA gan amlygu eu strategaeth ar gyfer adeiladu ar waith y flwyddyn flaenorol ac i symud ymlaen gyda'u partneriaid a chan adlewyrchu anghenion eu cwsmeriaid. Gofynnodd Aelodau ynghylch pwrpas y Cynllun Corfforaethol a oedd, ac ystyried ei natur gyffredinol, yn ymddangos fel na phetai fawr o bwrpas defnyddiol iddo. Dywedodd Graham Hawker fod hyn yn adlewyrchu gofynion Llywodraeth y Cynulliad a bod eu Cynllun Busnes blynyddol yn darparu'r sail fanylach yr oeddynt yn gweithredu o'i mewn. Ar fater dosbarthiad daearyddol eu perfformiad, dywedodd Graham Hawker eu bod wedi mynd y tu hwnt i'w rhif targed o swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd a bod 62% o'r ffigur uwch wedi'u lleoli yn ardaloedd Amcan 1. Yr oedd o'r farn y byddai o bosibl angen ailasesu'r targed o 67% ar gyfer hyn. Dywedodd Graham Hawker nad oedd dim o arian y WDA wedi mynd i Awdurdod Harbwr Bae Caerdydd ond cadarnhaodd fod yr Awdurdod yn gwario symiau sylweddol yn ardal Bae Caerdydd. Yr oedd yr Aelodau am wybod i ba raddau yr oedd hyn o fudd i Gymru gyfan ond cydnabuwyd ganddynt mai dim ond i leoliad mewn prifddinas y byddai rhai cwmnïau yn symud iddo a bod nifer fawr o bobl o ardaloedd cyfagos, megis y Cymoedd, yn gweithio yng Nghaerdydd. Cytunodd Graham Hawker i ddarparu nodyn ar y gwariant a wnaethpwyd gan y WDA yn yr ardal a oedd gynt yn rhan o gyfrifoldeb Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. **[Cam Gweithredu: G Hawker/Clerc]**
3. Dywedodd Graham Hawker nad oedd gan yr Awdurdod farn gadarn ar ddyfodol Canolfan Ewropeaidd Cymru (*WEC*). Yr oedd angen presenoldeb ym Mrwsel ar yr Awdurdod ond gydag agor swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru yno, yr oedd gwerth y gwasanaethau a ddarperir gan y WEC ar hyn o bryd yn llai. Byddai bwrdd yr Awdurdod yn gwneud penderfyniad ar y mater hwn yn y man ar sail

dadansoddiad manwl o gostau a buddiannau.

4. Holodd yr Aelodau am yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan y WDA i gau'r bwlch cyfoeth rhwng Cymru a Lloegr, bwlch sy'n ehangu yn ôl yr Aelodau. Dywedodd Graham Hawker fod y ffactorau y tu ôl i hyn yn cynnwys nifer isel y busnesau sy'n cychwyn, cyfradd methiant uchel, a'r angen am uwchraddio sgiliau. Dywedodd ei fod yn broses hirdymor a bod angen goresgyn ffactorau diwylliannol. Dylai symudiad yr Awdurdod tuag at gael eu harwain gan y cyflenwad, gan adlewyrchu anghenion a dymuniadau'u cwsmeriaid yn well, sicrhau'r effaith angenrheidiol. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn digwydd dros nos. Cytunodd i baratoi papur ar gyfer y Pwyllgor er gwybodaeth, efallai mewn oddeutu 6 mis, gan adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r gwaith o roi'r newidiadau strwythurol hyn ar waith. **[Cam Gweithredu:G Hawker/Clerc]**
5. Ailadroddodd Gareth Hall ymrwymiad yr Asiantaeth i Gymru wledig a chyfeiriodd at ddogfen: "Yr Awdurdod: Ymrwymiad i Gymru Wledig" a fyddai'n rhoi manylion eu cynlluniau, a chanlyniadau a pherfformiad blaenorol. Byddai'n cael ei lansio yn Sioe Frenhinol Cymru.
6. Ynghylch mater y porth busnes, dywedodd Graham Hawker mai eu hamcan cyntaf fu mapio'r ddarpariaeth gwasanaethau bresennol a sicrhau nad oedd unrhyw beth yn tarfu arnynt yn ystod newid y drefniadaeth. Y cam nesaf fyddai datblygu'r gwasanaethau gwell a oedd yn angenrheidiol.
7. Ynghylch Cyswllt Ffermio, dywedodd Gareth Hall fod y cam cyntaf, sef darparu arian ar gyfer ymgynghoriaethau gan y WDA, yn mynd rhagddo'n dda. Fodd bynnag, nid oedd yn gallu rhoi sylwadau ar yr ail gam, darparu arian dan FIG a FEG gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd mewn sefyllfa i roi sylwadau ar hyn a byddai'n darparu nodyn arno yn ei adroddiad nesaf. **[Cam Gweithredu: Gweinidog DE]**
8. Gan grynhoi'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i'r WDA am ddod i'r PDE i drafod eu cynnydd. Ailadroddodd gefnogaeth gref y Pwyllgor i waith y WDA.

**Eitem 7: Cynllun Corfforaethol Bwrdd Croeso Cymru**

1. Cyflwynodd Jonathan Jones gynllun corfforaethol Bwrdd Croeso Cymru a'i adroddiad perfformiad a nododd rhai o'r datblygiadau pwysig a oedd wedi effeithio ar y diwydiant ymwelwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mewn trafodaeth gyffredinol cododd yr aelodau y materion canlynol.
2. Derbyniodd Jonathan Jones nad oedd Cymru'n derbyn cyfran deg o'r holl ymwelwyr a oedd yn dod i'r DU. Cytunodd gydag awgrym un o'r Aelodau y byddai targedau wedi'u rhannu rhwng Bwrdd Croeso Cymru a'r BTA ar gyfer cynnydd mewn ymwelwyr rhanbarthol yn ffordd ymlaen.
3. Yr oedd Bwrdd Croeso Cymru yn symud ymlaen gyda chanlyniadau astudiaeth ddiweddar gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Ddiwydiannol, WDA, Amgueddfeydd ac Orielau'r Cynulliad Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol ar hyrwyddo Treftadaeth Ddiwydiannol yng Nghymoedd De

Cymru.

4. Ar fater cofrestru gorfodol, dywedodd Bwrdd Croeso Cymru eu bod o'r farn fod hyn yn angenrheidiol a'i fod yn cael ei gefnogi gan fwyafrif helaeth o weithredwyr. Byddai'r Bwrdd yn cyfarfod yn ystod yr wythnos ddilynol i lunio'u hargymhellion terfynol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mynegodd Aelodau bryder bod rhannau mawr o'r diwydiant yn erbyn, gan gynnwys Cymdeithas Lletygarwch Prydain, ond dywedodd Bwrdd Croeso Cymru nad oeddynt mor frwd eu gwrthwynebiad i'r argymhellion yng Nghymru ag yr oeddynt i'r system yn Lloegr.
5. Yr oedd Bwrdd Croeso Cymru yn hyderus fod y targed o fewn eu cynllun corfforaethol i greu 22,000 swydd newydd yn y sector ymwelwyr erbyn 2010 yn gyraeddadwy gyhyd â bod arian Adran 4 ar gael o hyd.
6. Holodd Aelodau am y tâl o 10% a wneir gan Ganolfannau Croeso am drefnu archebion. Eglurodd Jonathan Jones mai tâl gweinyddol oedd hwn a godid gan ganolfannau sy'n cael eu rhedeg gan Awdurdodau Lleol. Dywedodd y gallai'r Bwrdd Croeso, mewn theori, dalu grant i'r Canolfannau Croeso ar gyfer y taliadau gweinyddol hyn, ond ni theimlai y byddai hynny'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Bwrdd Croeso o wybod mai'r gweithgarwch craidd oedd hyrwyddo Cymru.
7. Er bod gan Fwrdd Croeso Cymru eu delweddau brand eu hunain ar gyfer hyrwyddo Cymru o fewn y DU a thramor, yr oeddynt yn gweithio gydag Asiantaethau eraill y Llywodraeth yng Nghymru i sicrhau bod strategaeth brand gydlynus yn bodoli.
8. Holodd Aelod ynghylch safbwynt datganedig diweddar y Bwrdd Croeso ar ffermydd gwynt. Dywedasant y byddent yn gofyn i gynllunwyr ystyried yr effaith ar dwristiaeth, ond nad oedd ymchwil ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru i awgrymu eu bod yn cael effaith gadarnhaol nac andwyol. Yr oedd ganddynt dystiolaeth o Ddenmarc a oedd yn awgrymu nad oeddynt yn cael effaith ar dwristiaeth.
9. Cytunodd y Bwrdd Croeso gyda'r Aelodau fod potensial i ddenu ymwelwyr o UDA trwy Iwerddon, a dywedwyd y byddai Cadeirydd Bwrdd Croeso Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn ymweld ag Iwerddon yn y man.

**Eitem 8: Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

1. Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 26 Mehefin yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**